CEFNOGI GWAITH Y MENTRAU IAITH

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018-19

## MENTRAU IAITH CYMRU

Pwrpas Mentrau Iaith Cymru yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith i greu cyfleoedd i gymunedau Cymraeg ffynnu ym mhob cwr o Gymru.

Sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn 1999. gan fod y Mentrau Iaith lleol wedi adnabod angen i gyfarfod yn rheolaidd, rhannu profiadau a gwybodaeth a rhoi cyfleoedd i'r Mentrau Iaith gydweithio â'i gilydd.

Fe ddatblygodd gwaith MIC yn gyson gan dyfu o dîm o un i dîm o bedwar rhwng 2004 a 2015. Rhwng 2015 a 2017 fe gydlynodd y tîm o bedwar y lefel uchaf o wasanaeth a gweithgareddau i gefnogi'r Mentrau Iaith ym mhob agwedd o'u gwaith yn effeithiol. Er i'r tîm leihau i un yn 2017 parhaodd safon y gefnogaeth a datblygwyd sawl prosiect uchelgeisiol a chroesawyd dau Swyddog Datblygu newydd i Fentrau Iaith Cymru. Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018 ymunodd dwy aelod bwysig arall i'r tim fel Cydlynydd Cymraeg Byd Busnes a Swyddog Gweinyddol.

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Blwyddyn o ehangu oedd 2018-19 i Fentrau Iaith Cymru gyda dwy swyddog newydd yn ymuno â'r tîm fel Swyddog Gweinyddol a Swyddog Datblygu. Roedd hi'n bleser hefyd croesawu Daniela Schlick i'r tîm fel Cydlynydd Prosiect Cymraeg Byd Busnes.

Un o ddatblygiadau mwyaf MIC yn ystod y flwyddyn oedd symud swyddfa yn nhref Llanrwst. Mae'r brif swyddfa erbyn hyn wedi ei lleoli yng nghartref newydd Menter Iaith Conwy, sef yr Hen Fanc a gafodd ei bwrcasu gan y Fenter er budd y gymuned. Mae'r adeilad wedi ei adnewyddu'n rhannol gyda gweithwyr MIC yn cymryd mantais lawn o'r adnoddau a lleoliad proffesiynol y swyddfa newydd.

Mae'r berthynas gyda'r Llywodraeth yn parhau i dyfu gyda'r ymddiriedaeth yn amlwg wrth i ni dderbyn cadarnhad bod MIC am weinyddu grantiau'r Papurau Bro a'r Grantiau Gwyliau Cerddorol Cymunedol newydd yn 2019-20.

Balchder mwyaf oedd derbyn cadarnhad fis Rhagfyr 2018 bod MIC wedi derbyn Marc Ansawdd Lefel 1 PQASSO. Yn dilyn gwaith caled o hunanasesu, addasu a datblygu ein prosesau o fewn y mudiad, mae'r Marc Ansawdd yn brawf o'r esblygiad hwn sydd wedi'n gwneud yn fudiad mwy effeithiol ac effeithlon yn y broses. Cyn diwedd y flwyddyn ariannol fe gefnogodd MIC y rhwydwaith wrth i'r Mentrau wneud eu cais am asesiad yn 2019. Mae derbyn asesiad PQASSO yn ddiweddglo perffaith i'n hamser dan weledigaeth Mentro Mwy - gweledigaeth oedd yn gosod sylfaen i waith MIC rhwng 2016-19 yn cynnwys llywodraethiant, cyd-weithio a gweithredu'n strategol. Braf gennyf ddod â chyfnod Mentro Mwy i ben gan adrodd yn gadarnhaol fod MIC wedi gwireddu'r weledigaeth hon ac ein bod wedi cryfhau fel mudiad yn ystod y cyfnod.

Gallwn edrych ymlaen tua'r dyfodol gyda hyder wrth i ni ddatblygu gweledigaeth newydd fydd yn cefnogi'r Mentrau Iaith i greu mwy fyth o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, sy'n hanfodol bwysig wrth i ni anelu am y miliwn o siaradwyr.

Lowri Jones

# Y MENTRAU IAITH

Rhwydwaith o grwpiau cymunedol yw'r Mentrau Iaith sy'n gweithio tuag at gynyddu a chryfhau'r defnydd o Gymraeg yn ein cymunedau. Mae 22 Menter Iaith wahanol sy'n gweithio gyda dros 190,000 o bobl ledled Cymru yn ein hardaloedd lleol. Mae pob un yn wahanol, yn gwasanaethu ar gyfer anghenion penodol eu hardaloedd.

Gyda dros 12,000 o weithgareddau'r flwyddyn - o wyliau neu glybiau gofal plant i sesiynau ymwybyddiaeth iaith - mae'r Mentrau Iaith yn cefnogi pobl o bob oed ac ym mhob cam o fywyd. Gan gyfeirio at wasanaethau Cymraeg defnyddiol - mae'ch Menter Iaith yn siop-un-stop ar gyfer yr iaith, yn ein hannog i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.

Mae'r Mentrau Iaith i bawb.

# ADEILADWAITH MENTRAU IAITH CYMRU

## Bwrdd Rheoli (Cenedlaethol)

Cynrychiolaeth o bob Menter Iaith sy'n aelodau o MIC (pob Menter yn cael anfon dau gynrychiolydd ac enwebu un ohonynt i fod yn un o Gyfarwyddwyr MIC, y Prif Swyddog fel arfer). Gwahoddir pob Prif Swyddog i'r cyfarfodydd a chroesewir cynrychiolaeth gan aelod o fwrdd rheoli pob Menter hefyd. Mae'r Pwyllgor Rheoli'n ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd sy'n gweithredu am ddwy flynedd i arwain y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol.

## Pwyllgor Gweithredol

Gwneud y gwaith o reoli MIC o ddydd i ddydd, cynrychioli MIC mewn digwyddiadau cenedlaethol, yn cyfweld ac apwyntio staff newydd mae'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd a 3 aelod yn cael eu hethol i'r Pwyllgor Gweithredol gan y rhanbarthau (2 o bob rhanbarth). Mae'r Bwrdd Rheoli yn ethol y swyddogion o'r 6 yma bob dwy flynedd, sef yr un swyddogion â'r Bwrdd Rheoli. Bydd yr Is-gadeirydd yn camu i sedd y Cadeirydd wedi dwy flynedd.

## Pwyllgor Rhanbarthol

Cyfarfodydd rhanbarthol (Gogledd, De Orllewin a'r De Ddwyrain) yn creu cyfle i drafod pwyntiau rhanbarthol a chenedlaethol fydd yn cael eu bwydo nôl i'r Pwyllgor Gweithredol wedyn. Mae'r pwyllgorau rhanbarthol yn gwahodd y Prif Swyddog o bob Menter Iaith yn y rhanbarth gan ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Yr aelodau yma sy'n cynrychioli'r rhanbarth ar y Pwyllgor Gweithredol. Bydd Is-gadeirydd yn cael ei ethol bob dwy flynedd a'r Is-gadeirydd yn camu i sedd y Cadeirydd wedi dwy flynedd.

## Staff MIC

Gweithredu ar benderfyniadau'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol, cynnig cefnogaeth i rwydwaith y Mentrau Iaith.

Iwan Hywel
Arweinydd Tîm

Heledd ap Gwynfor
Cydlynydd Partneriaethau

Marged Rhys
Cydlynydd Marchnata a Chyfathrebu

Daniela Schlick
Cydlynydd Prosiect Cymraeg Byd Busnes



Glesni Williams
Swyddog Gweinyddol

# EIN GWAITH YN 2018-19

## MARC ANSAWDD PQASSO

Wedi dros 3 blynedd o hunanasesu, datblygu a ffurfioli'n prosesau ac ymdrech gref gan y staff a'r aelodau bwrdd, derbyniodd MIC Farc Ansawdd Lefel 1 PQASSO ym mis Rhagfyr 2018 sydd yn ddilys tan fis Rhagfyr 2021. Pluen yn het y cwmni a'r rhwydwaith.

Gyda chefnogaeth ac arweiniad MIC, rhoddodd pob un o'r Mentrau sy'n gymmwys i wneud hyny eu cais am asesiad PQASSO erbyn diwedd Mawrth 2019 fel y bydd pob un wedi'w hasesu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf.

## CYNRYCHIOLI'R MENTRAU IAITH

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynrychioli'r rhwydwaith yn:

- Cynhadledd a chyfarfodydd Mudiad Dathlu'r Gymraeg
- Pwyllgor Cefnogi Dysgwyr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol
- Grwp Hyrwyddo'r Gymraeg
- Pwyllgor Gwaith Ieuenctid
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
- Cyfarfodydd grwp consortiwm addysg Gwe
- Cyfarfod VPN Cynghorau Gwirfoddol
- Cyfarfod a darlith flynyddol WCVA
- Ffair Ffeurio Syniadau Mentrau Cymunedol Iaith Cyf
- Cynhadledd Gwaith Ieuenctid Cymru
- Gofod 3 - digwyddiad 3ydd sector
- Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol
- a mwy...

# EIN GWAITH YN 2018-19

## HYFFORDDIANT A CHODI ANSAWDD

Yn dilyn proses dendro ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2017-18, penodwyd gwmni Darwin Gray i greu adroddiad o anghenion adnoddau dynol rhwydwaith y Mentrau Iaith. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn gynnar ym mlwyddyn 2018-19 yn gosod arweiniad pendant i'r Mentrau ar ddulliau o ddatblygu'r maes fydd yn ymateb i ofynion rhai o feysydd ansawdd Pqasso. Yn dilyn yr arweiniad, cyflwynwyd proses dendr cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn derbyn cymorth ar gytundeb i nifer o fentrau yn y rhwydwaith, yn cynnwys Mentrau Iaith Cymru.

Gyda newid yng nghyfraith yn ymwneud â diogelu data, fe drefnodd MIC gyfres o ddyddiau hyfforddiant GDPR ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyda thempledi ar gael i'r Mentrau Iaith allu defnyddio a mabwysiadu i'w systemau cyfathrebu allanol.

## CYFARFODYDD A CHYNADLEDDAU

Yn ystod 2018-19 cynhaliwyd sawl cyfarfod cenedlaethol yn cynnwys cyfarfod eithriadol, yn bennaf er mwyn diweddaru cyfansoddiad MIC a chadarnhau polisiau.

Cynhaliwyd Digwyddiad Cenedlaethol i holl staff y Mentrau ar Hydref yr 2il yn Y Drenewydd, diwrnod llawn o gyflwyniadau, sgyrsiau a rhwydweithio difyr. Cafwyd gyflwyniadau ar Mapio Cymru, Cyflwyno Enwau Lleoedd, Cwis Dim Clem, Ras yr Iaith, Flogio, Marchnata, apiau plant a mwy. Cafwyd adborth gadarnhaol dros ben am ddiwrnod llawn.

Ar gais Menter Iaith Blaenau Gwent Torfaen a Mynwy, cafodd cynhadledd i brif swyddogion a chadeiryddion ei chynnal yn Y Fenni fis Chwefror 2019.

Roedd broliant o waith y mentrau, yn enwedig o brosiectau cenedlaethol, gan Bethan Webb o Lywodraeth Cymru a gan  Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol Eluned Morgan AC drwy fideo.

Yn 2019 am y tro cyntaf, trefnodd MIC gyfarfodydd rhanbarthol ar gyfer cyfarwyddwyr y Mentrau lleol er mwyn annog rhannu syniadau a gwybodaeth. Roedd y 3 cyfarfod yn llwyddiant a bydd MIC yn parhau i'w cydlynu yn y dyfodol.

# EIN GWAITH YN 2018-19

## MARCHNATA A CHYFATHREBU

Yn dilyn proses dendro ym mis Mawrth 2018, penodwyd gwmni Aqua Marketing i greu adolygiad o waith a phrosesau marchnata a chyfathrebu MIC yn ystod 2018 wedi ei selio ar gyfweliadau gyda staff o'r mentrau iaith dros Gymru. Daeth i'r canlyniad fod sgiliau digonol mewn lle ond bod angen canolbwyntio ar farchnata yn fwy cenedlaethol a phwysleisio'r elfen rhwydwaith sydd i'r Mentrau Iaith.

Gyda help gan gwmni Aqua crewyd Strategaeth a Chynllun Marchnata a Chyfathrebu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a fydd yn sail i waith y Cydlynydd Marchnata a Chyfathrebu yn y flwyddyn i ddod.

Fel rhan o'r gwaith gan y cwmni Aqua, cafwyd 4 sesiwn hyfforddiant Marchnata a Chyfathrebu oedd yn rhoi arweiniad i'r swyddogion y mentrau am feddwl am eu cynulleidfaoedd, y neges a sut i'w cyrraedd.

Crewyd adnoddau marchnata defnyddiol ar gyfer denu gwirfoddolwyr newydd i'r Mentrau Iaith fel rhan o ymgyrch Gwirfoddoli yn y Gymraeg yn Eisteddfod Genedlaethol Bae Caerdydd lle cynhaliwyd digwyddiad arbennig i drafod sut orau i ddenu gwirfoddolwyr newydd ifanc i gydweithio dros y Gymraeg yn ein cymunedau.

## SYLW I'R MENTRAU IAITH

**242 700** o argraffiadau ar Twitter

**30 600** cyrhaeddiad ar Facebook

**7**
Cyfweliad ar radio cenedlaethol

**5**
Eitem newyddion i wasg cenedlaethol

**5**
Cyfweliad ar deledu ceneldaethol

# PROSIECTAU

## CYMRAEG BYD BUSNES

Yn ystod 2018-19  parhaodd y prosiect i lwyddo gyda'r 10 swyddog lleol yn taro eu holl dargedau. Erbyn diwedd blwyddyn 1 y prosiect ym mis Awst cysylltwyd gyda 1,064 o fusnesau, gweithwyd yn ddwys gyda 184 o fusnesau a cynhaliwyd 43 digwyddiad i hyrwyddo'r prosiect ac ymgysylltu â busnesau. Mae'r swyddogion yn parhau i daro eu targedau gyda niferoedd hanner blwyddyn yn parhau'n gadarn.

Croesawyd Daniela Schlick fel Cydlynydd Cymraeg Byd Busnes ym mis Medi 2018. Gyda'r cydlynydd newydd mewn lle, mae'r cyfarfodydd tim misol yn dod â'r swyddogion ynghyd a'n cadw perthynas dda gyda Llywodraeth Cymru.

## RAS YR IAITH

Ym miis Gorffennaf 2018 cynhaliwyd Ras yr Iaith a gafodd ei gydlynu gan ein Swyddog Partneriaethau ar y cyd gyda Rhedadeg a'r mentrau lleol. Ehangodd y ras gan ymweld am y tro cyntaf ag Ynys Mon, gan redeg dros Bont Menai, a threfi yn y Dwyrain, gan orffen ar ddiwrnod godidog o flaen Castell Caerffili.

Ymwelodd Ras yr Iaith â 15 tref a phentref, gyda Baton yr Iaith yn uno miloedd o redwyr ar draws y wlad a chodi dros £7,500. Drwy system grantiau, dosbarthwyd yr elw yma i 20 o fudiadau ledled Cymru i'w cefnogi i hybu'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

# CASGLIADAU CLO

Yn ystod 2018-19 mae systemau MIC wedi parhau i ddatblygu a derbyn marc ansawdd PQASSO yn goron i'r flwyddyn.

Roedd newid mawr i'r tim eto eleni gan groesawu aelodau newydd, Daniela Schlick yn gyntaf fel Cydlynydd Cymraeg Byd Busnes yna Glesni Williams fel Swyddog Gweinyddol. Roedd hi'n braf hefyd croesawu Fflur Davies am gyfnod byr fel Swyddog Cefnogi. Mae gweld MIC yn tyfu yn tanlinellu hyder y cwmni wrth dyfu a mynd ar ôl cyfrifoldebau newydd.

Newid arall yn ystod y flwyddyn oedd symud lleoliad ein prif swyddfa yn Llanrwst. Gyda'r tîm yn tyfu, mae cael swyddfa ychydig yn fwy a defnydd o ardal 'hot-desk' ac ystafell gyfarfod yn adeilad Menter Iaith Conwy, yn ein galluogi i weithio'n hyblyg a chreadigol mewn swyddfa broffesiynol.

Yn olaf, hoffai staff MIC ddiolch i Owain Gruffydd am arwain fel cadeirydd am y ddwy flynedd diwerthaf a chroesawu Lowri Jones fel cadeirydd ers mis Hydref 2018. Mae'r newidiadau mawr yn digwydd pob blwyddyn ym mywyd MIC, ond er rhai sylweddol, rhai cadarnhaol ydynt. Yn esblygu pob dydd, mae MIC yn cryfhau gan barhau i weithio er mwyn y Mentrau a'r Gymraeg yn ein cymunedau.

Mentrau Iaith Cymru

"Diolch am eich holl waith caled. [Mae'n] ddigwyddiad pwysig i wneud i bawb deimlo a sylweddoli eu bod yn rhan o dîm ehangach a rwydwaith llydan ar hyd ac ar led Cymru."

Barn Swyddog Maes o'r Digwyddiad Cenedlaethol

"Roedd pawb wedi mwynhau ac wedi cael gwerth sylweddol o'r sesiynau amrywiol iawn. ... Roedd cydbwysedd da o sesiynau lle roedd gofyn i drafod ac ystyried materion dwys ac yna cyfle i gael amser i feddwl am ein lles ni fel staff a chael syniadau newydd. Mae bob amser hefyd yn werthfawr cael bod allan o'r swyddfa gyda Phrif Swyddogion eraill a rhannu syniadau, heriau a mwynhau."

Barn Prif Swyddog o'r Gynhadledd

## ADBORTH

"Roedd y cyfan yn edrych yn dda, yn broffesiynol ond hefyd yn gymunedol (ddim rhy 'gorfforaethol'). Mae ein delwedd wedi datblygu CYMAINT yn ystod y cyfnod diweddar - da iawn a llongyfarchiade!

Barn Prif Swyddog o'r Stondin yn Eisteddfod yr Urdd 2018